



COFNODION CYFARFOD
Y CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL

13:00 awr, 12 Medi 2018, Ystafell Gynadledda'r Dociau, Pencadlys yr Heddlu

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Yr Athro Mike McNamee (Cadeirydd)
Yr Athro Duncan Lewis
Dr Harriet Pierpoint
Mr Mike Lewis
Jacqueline Gantley
Joga Singh
Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards
Lee Jones – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cynorthwyol
Nia Brennan
Y Prif Uwcharolygydd Dorian Lloyd
Carol Woodward
Y Ditectif Brif Arolygydd Mark Kavanagh
Y Ditectif Arolygydd Huw Thomas
Jacqui Trow
Y Rhingyll Claire Bradbury-Evans
Y Rhingyll Bryn Glennie (Sylwedydd)
Y Ditectif Gwnstabl Siân O'Shea
Amy Thomas

Yn Cyflwyno Cyfyng-gyngor Moesegol
Y Prif Arolygydd Ian Randall
Yr Arolygydd Eve Davies

Ymddiheuriadau:
Yr Athro Margaret Griffiths
Nicola Williams
Ceri Channon
Y Ditectif Brif Uwcharolygydd Danny Richards
Yr Uwcharolygydd Jo Maal
Y Rhingyll Matthew Hicks

2. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018 yn gofnod cywir.

Rhif CG	y Cam gweithredu	Perchennog	Statws/Diweddariad
1.	Caiff nodyn cymorth cof ei gyhoeddi o ran bod ar ddyletswydd/ddim ar ddyletswydd.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards	Cariwyd Ymlaen. Mae'r Prif Uwcharolygydd Edwards wedi drafftio'r nodyn cymorth cof a chaiff ei roi ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.
2.	Trefnu dyddiad ar gyfer y gweddarllediad ar egwyddorion moeseg.	Amy Thomas	Cwblhawyd.
3.	Rhannu canlyniadau'r arolwg ciplun o foeseg â'r Pwyllgor Cenedlaethol.	Yr Athro McNamee	Cwblhawyd.
4.	Cyfarfod i'w drefnu rhwng yr Athro McNamee, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Edwards, Nia Brennan, Lee Jones a Ceri Channon i fynd drwy'r cofnodion i'w cyhoeddi. Cyfarfod i'w gynnal erbyn canol mis Gorffennaf.	Amy Thomas	Wedi'i gyflawni. Caiff cofnodion yn y cyfarfod hwn eu paratoi a'u cyhoeddi'n allanol.
5.	Yr Athro McNamee i'w godi yn ystod cydweithio'r Pwyllgor Cenedlaethol â'r gwasanaeth ambiwlans. Y Prif Uwcharolygydd Edwards i'w godi hefyd yng Nghyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan.	Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards/Yr Athro McNamee.	Cariwyd Ymlaen.
6.	Cytunodd Nicola Williams i wneud rhywfaint o ymchwil i'r deunyddiau polisi a oedd yn bodoli mewn proffesiynau eraill o ran 'cyffwrdd' a'i chyflwyno i'r Pwyllgor.	Nicola Williams	Cariwyd Ymlaen.
7.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards, yr Uwcharolygydd Maal a'r Rhingyll Matt Hicks i roi diweddariad ysgrifenedig yn y cyfarfod nesaf o ran 'hyrwyddwyr moesegol'.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards, yr Uwcharolygydd Edwards a'r Rhingyll Matt Hicks	Cwblhawyd. Eitem ar yr agenda.
8.	Paratoi mater moesegol o ran digartrefedd/cysgu ar y stryd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.	Y Prif Arolygydd Ian Randall/yr Uwcharolygydd Joanna Maal	Cwblhawyd.
9.	Adroddiad i'w baratoi ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar y trafodaethau ar Adnabod Wynebau yn Awtomataidd a gynhaliwyd yn y Pwyllgor.	Yr Athro McNamee/Lee Jones	Cwblhawyd.
10.	Rhannu Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol â'r Pwyllgor Moeseg Rhanbarthol.	Amy Thomas	Cwblhawyd.

3. Cyflwyniad

Croesawodd yr Athro McNamee y Rhingyll Bryn Glennie, Swyddog Staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, i'r cyfarfod a oedd wedi gofyn am gael bod yn bresennol fel sylwedydd.

Dywedodd yr Athro McNamee hefyd y byddai'r Prif Arolygydd Ian Randall yn dod i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno cyfyng-gyngor moesegol ar ddigartrefedd yng Nghaerdydd. Byddai'r Arolygydd Eve Davies hefyd yn bresennol er mwyn cyflwyno cyfyng-gyngor moesegol ar swyddog yn cipio delwedd anwedus ar ei lyfr nodiadau piced electronig fel tystiolaeth.

Diolchodd yr Athro McNamee i Dr Simon Brooks a oedd wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol, ac nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ond a oedd wedi gwneud cyfraniad allweddol i'r Pwyllgor yn ystod y tair blynedd diwethaf.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol

4a. Digartrefedd/Cysgu ar y Stryd yng Nghaerdydd – Y Prif Arolygydd Ian Randall

Yn debyg i drefi a dinasoedd eraill yn y DU, bu cynnydd mawr yn nifer y bobl yng Nghaerdydd sy'n cysylltu â'r Awdurdod Lleol ac yn dweud eu bod yn ddigartref. Mae nifer fawr o bobl ddigartref naill ai'n cysgu ar y stryd yng nghanol y ddinas neu'n defnyddio'r llety hostel sydd ar gael i gysgu yn ystod y nos ac yna'n treulio eu hamser yn y lleoliadau siopa prysur yn ystod y dydd.

P'un a ydynt yn cysgu ar y stryd neu mewn llety dros dro, bydd canran uchel yn cardota ar strydoedd canol y ddinas er mwyn cynnal eu ffordd o fyw, sydd, yn aml, yn cynnwys camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae Heddlu De Cymru yn derbyn nifer fawr o alwadau gan aelodau o'r cyhoedd a busnesau lleol yn cwyno am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a throseddau sy'n gysylltiedig â'r materion hyn, a phwerau cyfyngedig, ac mewn rhai amgylchiadau, rhai hen, sydd gan yr heddlu i fynd i'r afael â'r problemau. Hefyd, mae dyletswydd ar Heddlu De Cymru i amdiffyn a diogelu pobl sy'n agored i niwed.

Y cwestiwn/cwestiynau hollbwysig i'w drafod/trafod gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol yw:

1. A ddylai Heddlu De Cymru ddefnyddio pwerau disgrisiwn lle mae troseddau yn gysylltiedig â bod yn agored i niwed?
2. A ddylai Heddlu De Cymru ddefnyddio hysbysiadau Adran 35 i wthio pobl i ffwrdd o ganol y ddinas er mwyn lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan ei fod yn effeithio ar eu cyswllt â gwasanaethau a sefydliadau cefnogol.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth fel a ganlyn:

- Mae'r llwybr cardota yn rhoi mantais yr amheuaeth cyn bod pobl ddigartref yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol (nid yw arestio yn golygu cyhuddo).
- Roedd y Pwyllgor yn holi a oedd rhywfaint o oddrychedd yn y ffordd roedd Heddlu De Cymru yn defnyddio Hysbysiadau Adran 35 mewn cysylltiad â bod yn agored i niwed. Cadarnhawyd bod y rhan fwyaf o'r galwadau yn ymwneud â chardota mewn ffordd ymosodol, ac mai'r Ddeddf Crwydradaeth a oedd wedi cael ei defnyddio hyd yma i fynd i'r afael â'r broblem, deddf sydd wedi bodoli ers canrifoedd.
- Mae'r cyfleusterau y bydd angen i bobl ddigartref eu defnyddio o bosibl yng nghanol y ddinas. Mae awdurdodau lleol yn gwybod fwy neu lai (drwy dimau allgymorth) ble mae unigolion y maent yn gofalu amdanynt ac os cânt eu symud y tu allan i ganol y ddinas, ni fydd timau allgymorth/Dyfodol o'r fath yn eu gweld.
- Holodd y Pwyllgor ynghylch sut mae swyddogion yn adnabod unigolion sy'n agored i niwed. Nodwyd y byddant yn gallu gweld hynny o edych ar eu cofnod blaenorol. Mae gan yr heddlu ddiffiniad o fod yn agored i niwed hefyd: oherwydd amgylchiadau eu sefyllfa maent yn llai abl i ofalu amdanynt hwy eu hunain.
- Nid y pwerau eu hunain yw'r disgrisiwn ond, yn hytrach, y ffordd y caiff y gyfraith ei dehongli a'i chymhwyso at unigolion nad ydynt yn ymgysylltu.
- Holwyd am b'un a yw unigolion yn 'cydsynio ar sail gwybodaeth' h.y. p'un a yw'n briodol gofyn i rywun gymryd rhan mewn 'ymyriad' os mai dod yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol yw'r opsiwn arall. Cadarnhawyd y bydd yr heddlu yn cael ei lywio gan farn y trydydd sector o ran p'un a all unigolyn ymgysylltu a bod yn barod i newid.
- Mynegwyd pryder ei bod yn ddigon posibl mai'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n amharod i gydsynio neu ymgysylltu a holodd y Pwyllgor am weithredoedd Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r unigolion hynny sy'n amharod i ymgysylltu.
- Holodd y Pwyllgor hefyd sut mae swyddogion yn gwybod pryd na ddylid arfer disgrisiwn e.e. os oes rhywun yn gwerthu cyffuriau yn hytrach na bod cyffuriau yn eu meddiant at ddefnydd personol. Nodwyd bod Heddlu De Cymru yn cyfeirio pawb at y darparwr gwasanaeth yn y trydydd sector a fydd yn asesu'r

unigolion ac yn rhoi barn. Holodd y Pwyllgor hefyd sut y cedwir cydbwysedd o ran darparwr y trydydd sector.

- Nodwyd bod gan hysbysiadau Adran 35 bolisi ategol hefyd a gofynnodd aelodau a fu unrhyw ddadansoddiad o'r defnydd o bwerau adran 35 a ph'un a yw'n llwybr effeithiol. Nodwyd y bydd am ba hyd roedd yr aflonyddu, braw neu drallod wedi parhau hefyd yn llywio am faint o amser y bydd y gwaharddiad adran 35 yn parhau - e.e. os bydd siopwr yn wynebu cryn dipyn o drallod, yna efallai y bydd cyfiawnhad dros osod terfyn hwy na'r terfyn o 48 awr.
- Ym marn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, ei rôl yn hyn o beth oedd adlewyrchu barn y cyhoedd a'i bod yn rhoi pwyslais ar fynediad at wasanaethau adferol a gwasanaethau cymorth. Mae nifer o fentrau partneriaeth, sy'n canolbwyntio ar atal ac yn ystyried yr hyn sy'n achosi'r problemau hyn. Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yw gofyn pa mor effeithiol ydynt yn ymarferol, er enghraifft defnyddio hysbysiadau Adran 35 a hefyd p'un a yw'n defnyddio amser yr heddlu mewn ffordd effeithiol.
- Hysbyswyd y Pwyllgor bod dau Gwnstabl wedi cael eu penodi'n ddiweddar a oedd yn cael eu hariannu gan fusnesau lleol a'u bod yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â phroblemau lleol o'r fath.
- Beth yw gofyn i rywun 'gytuno i dderbyn gwasanaeth' yn ei olygu? Un mater i'w drafod yw p'un a yw'n briodol gofyn i rywun gymryd rhan mewn 'ymyriad' os mai cyfiawnder troseddol yw'r opsiwn arall. Ai cydsynio o'i wirfodd ydyw? Os nad felly y mae, mae'n ofynnol i rywun gymryd rhan mewn ymyriad er nad yw wedi cael ei gyhuddo na'i cholffarnu (h.y. mewn proses sy'n cynnwys mesurau gweithredu yn ôl y drefn briodol).
- A yw'r hysbysiad Adran 35 wedi'i gyfeirio'n benodol at berson/au) neu ardal ddaearyddol neu'r ddau? Cadarnhawyd bod hysbysiad Adran 35 yn cwmpasu'r naill a'r llall.

Y pwyntiau allweddol gan y Pwyllgor oedd:

- Roedd cyd-fentrau â thrydydd partion i'w croesawu. Roeddent hefyd yn cefnogi'r dull gweithio mewn partneriaeth mewn ymateb i broblem a oedd yn amlwg yn gymhleth.
- Holi ynghylch cadw cydbwysedd o ran trydydd partion y mae'r heddlu yn dibynnu ar eu barn o bosibl. .
- Holi ynghylch arfer disgrisiwn gan swyddogion.
- Nododd y Pwyllgor y cydbwysedd i'w sicrhau rhwng symud pobl i ffwrdd o'r manau lle ceir yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ond hefyd fynediad at wasanaethau cymorth.
- Nid dewis rhwng un peth a'r llall yw hysbysiadau Adran 35 ac mae opsiynau eraill ar gael.
- Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod ymyriadau cynnar yn golygu na fyddai Heddlu De Cymru yn troi'r rhai sy'n agored i niwed yn droseddwr ac roedd hefyd yn ystyriol o wthio'r broblem i ardaloedd lle ceir llai adnoddau.
- Nid oedd unrhyw broblemau gyda'r heddlu yn arfer disgrisiwn o'r fath. Os yw unigolion yn barod i ymgysylltu cânt eu cyfeirio at wasanaethau adferol yn hytrach na'r llwybr cyfiawnder troseddol.

4b. Swyddog yn Tynnu Delwedd Anwedus – Yr Arolygydd Eve Davies

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd â Heddlu De Cymru er mwyn rhoi gwybod am y mater canlynol:

“YN YSTOD YR HANNER AWR DIWETHAF RWYF WEDI BOD YN GWYLIO PORN, FE LAWRLWYTHES I SAFLE PORN (BWYSTFILEIDDIWCH) AC YNA YMDDANGOSODD RHYWBETH AR Y SGRIN YN DWEUD FY MOD I WEDI BOD YN GWYLIO PORN PLANT, MAE'N DANGOS DELWEDDAU O BLANT 5-11 OED - YNA MAE WEDI MYNNU FY MOD I'N TALU £100 NEU FEL ARALL BYDDAF YN YMDDANGOS YN Y LLYS. MAEN NHW WEDI RHOI 47 AWR I MI WNEUD Y TALIAD HWNNW. MAE'N GWRTHOD GADAEL I MI DDIFODD FY LLECHEN NAWR”.

Cafodd swyddogion eu dynodi i fynd i gyfeiriad cartref yr unigolyn a gysylltodd mewn perthynas â'r mater hwn. Pan oedd y swyddogion yno, ymddangosai fel petai'r feirws yn atal unrhyw fotymau ar y ddyfais rhag cael eu gwasgu, gan atal y swyddogion rhag gosod y ddyfais yn y dull Awyren. Nododd y swyddog a fu'n bresennol fod delweddau anwedus o bosibl o bobl ifanc yn cael eu dangos fel crynoluniau fel rhan o'r feirws ar y ddyfais. Am y rheswm hwn, cadwodd y swyddog y ddelwedd ar ei lyfr nodiadau poced electronig drwy dynnu ffotograff ohoni ar ei ddyfais Samsung (Gwnaed hyn am fod amserydd gweithredol ar y feirws a bod pryderon

y byddai popeth ar y ddyfais yn cael ei ddileu o bosibl). Roedd y dinesydd yn ymwybodol o weithredoedd y swyddogion. Nododd y swyddog ei weithredoedd ar y cofnod ond ni chofnododd y mater fel y cyfryw.

Y cwestiwn/cwestiynau hollbwysig i'w drafod/trafod gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol yw:

1. A yw'r swyddog wedi gweithredu mewn ffordd foesegol/gyfreithlon?
2. Beth ddylai'r swyddog fod wedi'i wneud yn y sefyllfa hon?
3. Beth yw teimladau'r aelodau am y broses o swyddogion yn cofnodi delweddau yn y modd a ddisgrifiwyd?
4. A yw swyddogion yn ymwybodol bod angen rhoi cyfrif am eu gweithredoedd?
5. A yw swyddogion yn ymwybodol bod angen copïo, storio a dileu?

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth fel a ganlyn:

- Mae'r swyddog wedi cadw'r ddelwedd ar ei lyfr nodiadau pced electronig. Felly, yn dechnegol, mae'r swyddog wedi creu delwedd anwedus o blentyn. Dogfennwyd bod y swyddog wedi gweithredu yn y fath fodd a'i fod wedi bod yn agored ac yn dryloyw ond nid oedd wedi rhoi gwybod yn benodol i'w reolwyr am y ffaith .
- Nid oes unrhyw ganllawiau ar gael gan yr heddlu i fynd i'r afael ag amgylchiadau o'r fath.
- Nododd y Pwyllgor y byddai'r ddyfais wreiddiol yn cael ei hatafael sut bynnag gan y byddai'n dal tystiolaeth o'r drosedd ac y byddai hon wedi cael ei chyflwyno ar gyfer dadansoddiad ffrensig.
- Mae nifer aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi gwybod am achosion o'r fath yn cynyddu.
- Byddai'r ddelwedd wedi cael ei throsglwyddo i ffeil wedi'i hamgryptio.
- Cadarnhawyd bod dau swyddog yn bresennol ac y byddai un swyddog wedi bod yn dyst i'r amgylchiadau a gweithredoedd ei gyd-swyddog. Cadarnhawyd hefyd mai eiddo'r heddlu ac ased busnes yw'r llyfr nodiadau pced electronig.
- Roedd rhai aelodau o'r farn y byddai'r swyddog wedi bod yn esgeulus pe na bai wedi tynnu'r llun o dan yr amgylchiadau, gan fod plant yn rhan o'r drosedd. Mae cyfleoedd enfawr o ran diogelu, y gellid bod wedi manteisio arnynt.
- Mae'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol yn cynnal cyfarfodydd chwarterol cenedlaethol er mwyn trafod bygythiadau newydd o'r fath. Cydnabuwyd bod yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol wrthi'n llunio canllaw ymarferol ar gwestiynau cyffredin.
- Nodwyd na all y swyddog ddileu delweddau o'r llyfr nodiadau pced electronig yn barhaol ond nad oedd y swyddog wedi lanlwytho'r ddelwedd ar gronfa ddata NICHE.
- O dan yr amgylchiadau a nodwyd roedd tystiolaeth eisoes o'r drosedd o bornograffi eithafol (bwystfileiddiwch) hefyd.
- Nododd y Pwyllgor na chafodd y swyddog ei feirniadu ar y pryd a bod ganddo fwriadau da a bod yn rhaid iddo wneud ei benderfyniad mewn eiliadau ond cododd hyn gwestiwn o ran polisi yn y dyfodol. Cyfeirio at Bwyllgor Moeseg Cenedlaethol yr Heddlu fel y mae.
- Dyletswydd diogelu i'r plant y cipiwyd eu delweddau. Cyfyd achosion lle y gellir cyfiawnhau cymeradwyo swyddog i dorri'r gyfraith ar yr olwg gyntaf ond anaml iawn y mae amgylchiadau o'r fath yn codi.
- Er i'r swyddog gyflawni trosedd yn dechnegol, byddai amddiffyniad ar gael o dan yr amgylchiadau a chytunodd y Pwyllgor fod dyletswydd ar y Pwyllgor i gwestiynu'r gyfraith fel rhan o'i ystyriaethau.

Ni ddaeth y Pwyllgor Moeseg Annibynnol i gonsensws ar y mater hwn, oherwydd y ddyletswydd i roi gwybod am faterion diogelu a'r cwestiwn p'un a oedd unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar waith. Ni chafodd y swyddog ei feirniadu yn yr achos hwn, ond ystyriwyd bod hyn yn fater ar wahân i fater llunio egwyddorion cyffredinol ar gyfer y dyfodol.

Cam gweithredu: Yr Athro McNamee i gyfeirio'r cyfng-gyngor moesegol at y Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol am ragor o arweiniad.

4c. Astudiaeth Achos Go Iawn

Nid oedd digon o amser i drafod yr astudiaeth achos go iawn a chaiff hon ei thrafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

Cam gweithredu: Amy Thomas i roi'r 'astudiaeth achos go iawn' ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

5. Adroddiad ar y System Adnabod Wynebau Awtomataidd

Nododd yr Athro McNamee fod y Pwyllgor wedi cael cais i baratoi adroddiad ar weithredu meddalwedd Adnabod Wynebau Awtomataidd, a'r materion moesegol sy'n deillio ohoni, ymhellach i gonsensws trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Nododd ei fod wedi cyfarfod â'r Arolygydd Scott Lloyd a Lee Jones er mwyn paratoi'r adroddiad, a gaiff ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Dosbarthwyd copïau caled i'r aelodau a bydd y Pwyllgor yn ei drafod eto ac yn cytuno arno yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

Cam gweithredu: Aelodau i ddarllen yr adroddiad ar Adnabod Wynebau Awtomataidd a gaiff ei gwblhau'n derfynol yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

6. Eitemau a godwyd yn y Grŵp Moeseg Mewnol

Nododd y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards fod y Rhingyll Matthew Hicks wedi paratoi adroddiad ar 'Hyrwyddwyr Moesegol' i'r Grŵp Moeseg Mewnol. Nododd mai consensws cyffredinol y Grŵp Moeseg Mewnol oedd nad hyrwyddwyr moesegol oedd y ffordd orau o hyrwyddo moeseg o fewn Heddlu De Cymru.

Dywedodd y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards wrth y Pwyllgor fod yr arolwg ciplun i fesur ymwybyddiaeth foesegol gan staff yr heddlu wedi dod i ben a bod papur yn nodi canlyniadau'r arolwg wedi cael ei ddosbarthu gan Amy Thomas. I grynhoi, roedd yn galonogol nodi bod bron bob aelod o staff yr heddlu yn ymwybodol bod y Cod Moeseg yn gymwys i staff yr heddlu yn ogystal â swyddogion yr heddlu ac mai dim ond mwyafrif bach a nododd bod eu dealltwriaeth o'r Cod Moeseg yn wael. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr y gellir gwneud rhagor o waith i wella dealltwriaeth o'r Cod Moeseg ymhlith y staff. Mae angen gwella prosesau cyfathrebu gan fod y mwyafrif o ymatebwyr wedi nodi yr hoffent gael trafodaethau rheolaidd â goruchwylwyr am faterion sy'n codi cyfyng-gyngor moesegol, ond dywedodd dros hanner nad yw'r rhain yn cael eu cynnal.

Mae angen i'r gwaith a wneir gan y Pwyllgor Moeseg Annibynnol gael ei gyfleu i'r heddlu, gan nad oedd hanner yr ymatebwyr yn ymwybodol bod Pwyllgor Moeseg Annibynnol ac nad oedd y rhai a oedd yn ymwybodol ohono yn ymwybodol o'i rôl.

Nododd y Prif Uwcharolygydd Edwards fod y canlyniadau wedi dangos bod angen ymgymryd â marchnata mewnl er mwyn codi ymwybyddiaeth. Nododd yr aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol gwybod lle mae diffyg ymwybyddiaeth fesul ardal o'r heddlu. Caiff arolwg ar foeseg i swyddogion yr heddlu ei gynnal cyn hir ac ymhellach i hyn bydd y Grŵp Moeseg Mewnol yn datblygu cynllun gweithredu.

Cam gweithredu: Canlyniadau o arolwg ciplun o swyddogion yr heddlu ar ymwybyddiaeth foesegol i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

7. Enwebiadau am adnewyddu diddordeb

Dywedodd yr Athro McNamee fod y Telerau Busnes yn nodi mai 12 Tachwedd 2015 oedd dyddiad penodi gweithredol pob aelod. Felly, roedd angen adnewyddu tymor pob penodiad ar ôl cyfnod o dair blynedd am hanner nos ar 11 Tachwedd 2018. Felly, gofynnwyd i'r Athro Mike McNamee, yr Athro Margaret Griffiths, yr Athro Duncan Lewis a Doctor Harriett Pierpoint gadarnhau p'un a oeddent yn dymuno aros yn aelodau o'r Pwyllgor. Nododd yr Athro McNamee, yr Athro Lewis a Dr Pierpoint eu bod yn dymuno aros yn aelodau o'r Pwyllgor.

Nododd yr Athro McNamee nad oedd yr Athro Margaret Griffiths yn bresennol heddiw ond ei bod wedi mynegi dymuniad i ymddiswyddo o'r Pwyllgor ar ddiwedd y tair blynedd. Nododd ei fod yn ddiolchgar iawn iddi am ei chyfraniadau mewn cyfarfodydd a'i hymdrechion i sefydlu'r Pwyllgor. Felly, roedd swydd Is-gadeirydd yn wag, y mae'n rhaid iddi gael ei llenwi gan aelod annibynnol.

Gwahoddir aelodau i fynegi diddordeb yn swydd yr Is-gadeirydd a chaiff canllawiau pellach eu hanfon at yr aelodau drwy e-bost.

Cam Gweithredu: Canllawiau ar fynegi diddordeb yn swydd yr Is-gadeirydd i'w hanfon. Enwebiadau i'w hanfon at Amy Thomas i'w trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

8. Unrhyw Fater Arall

Dyweddodd yr Athro McNamee y bydd Sarah Cooper o Arolygiaeth Cwnstablfaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr fel rhan o ymweliadau Mewnwelediad yr Arolygiaeth.

Dyweddodd yr Athro McNamee hefyd y caiff sylwedyddion mewn cyfarfodydd eu cyfyngu i un fesul cyfarfod.

9. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

12 Rhagfyr 2018; 13:00 awr

Rhif y CG	Cam gweithredu	Perchennog	Statws/Diweddariad
1.	Caiff nodyn cymorth cof ei gyhoeddi o ran bod ar ddyletswydd/ddim ar ddyletswydd.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards	Cariwyd Ymlaen. Mae'r Prif Uwcharolygydd Edwards wedi drafftio'r nodyn cymorth cof a chaiff ei roi ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.
2.	Yr Athro McNamee i'w godi yn ystod cydweithio'r Pwyllgor Cenedlaethol â'r gwasanaeth ambiwlans. Y Prif Uwcharolygydd Edwards i'w godi hefyd yng Nghyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan.	Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards/Yr Athro McNamee.	Cariwyd Ymlaen.
3.	Cytunodd Nicola Williams i wneud rhywfaint o ymchwil i'r deunyddiau polisi a oedd yn bodoli mewn proffesiynau eraill o ran 'cyffwrdd' a'i chyflwyno i'r Pwyllgor.	Nicola Williams	Cariwyd Ymlaen.
4.	Cyfeirio'r cyfng-gyngor moesegol sy'n codi ar ôl i'r swyddog gipio delwedd anwedus ar ei lyfr nodiadau poced electronig at y Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol am ragor o arweiniad.	Yr Athro McNamee	Camau Gweithredu Newydd
5.	Rhoi'r 'astudiaeth achos go iawn' ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Amy Thomas	Camau Gweithredu Newydd
6.	Aelodau i ddarllen yr adroddiad ar Adnabod Wynebaw Awtomataidd a gaiff ei gwblhau'n derfynol yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Aelodau	Camau Gweithredu Newydd
7.	Canlyniadau o arolwg ciplun o swyddogion yr heddlu ar ymwybyddiaeth foesegol i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Amy Thomas	Camau Gweithredu Newydd
8.	Canllawiau ar fynegi diddordeb yn swydd yr Is-gadeirydd i'w hanfon. Enwebiadau i'w hanfon at Amy Thomas i'w trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Yr Athro McNamee	Camau Gweithredu Newydd